

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bridge Dental Care, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 18 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	18
4. Y camau nesaf .....	22
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	24
Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bridge Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 18 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 23 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar a'u bod yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i gynnig triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod, a dywedodd y cleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan fydd angen un arnynt.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r practis a dywedodd y cleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried sut y gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau sy'n diwallu anghenion cleifion ag anawsterau darllen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Caiff amrywiaeth dda o wybodaeth ddwyieithog ei darparu.
- Mae ystafelloedd ymgynghori ar gael ar gyfer trafodaethau cyfrinachol a sensitif
- Ardal aros i fyny'r grisiau wedi'i haddurno a'i dodrefnu'n addas er mwyn darparu ardal dawel a hamddenol i gleifion pryderus a chleifion niwrowahanol.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac yn daclus ac wedi'i addurno i safon uchel iawn.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Gwelsom fod y practis yn cydymffurfio'n dda â rhagofalon diogelwch tân ac roedd nifer o allanfeydd tân ar gael. Fodd bynnag, roedd angen diwygio cynllun gwagio'r

adeilad ar gyfer y llawr gwaelod mewn perthynas â chleifion â phroblemau symudedd.

Roedd y cofnodion deintyddol yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid sicrhau bod y cyfarpar golchi-diheintio yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn yn unol â'r canllawiau
- Er eu bod wedi'u storio'n ddiogel, dylid cloi'r biniau gwastraff clinigol
- Adolygu polisi diogelu'r practis i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol Cymru Gyfan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynllun cyson i'r deintyddfeydd
- Ystafell ddihalogi ddynodedig drefnus
- Cydymffurfiaeth dda o ran cyfarpar pelydr-X, gydag arwyddion priodol uwchben drysau'r deintyddfeydd.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yn hawdd i'r staff fynd at y rheolwr cofrestredig, ac roedd y practis yn cael ei redeg yn effeithiol gyda llinellau adrodd clir i'r staff. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd.

Gwelsom fod proses sefydlu dda ar waith a bod y rhestrau gwirio yn cael eu llofnodi gan uwch-reolwr pan fyddent wedi'u cwblhau. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda iawn.

Gwelsom dystiolaeth o broses gwyno addas yn unol â pholisi'r practis a lefelau rhagorol o adborth cadarnhaol drwy wefan y practis.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amrywiaeth dda o hyfforddiant i'r staff a chydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol
- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith
- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o archwiliadau yn cael eu cynnal er mwyn anelu at wella safonau'n barhaus.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 23 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'n bractis dymunol. Glân a thaclus. Mae'r staff bob amser yn hyfryd. Mae digon o ystafelloedd aros a thoiledau. Mae'r deintyddion yn garedig ac yn dyner.”*

*“Mae pawb yn garedig ac yn groesawgar iawn ac maent yn gwneud i mi deimlo'n gwbl gyfforddus.”*

*“Gwasanaeth gwych, tîm proffesiynol iawn.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis.

Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardaloedd aros, gan gynnwys canllawiau ar roi'r gorau i smygu a'r polisi cwynion. Gwelsom fod gwybodaeth am gostau hefyd yn cael ei harddangos.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym hefyd fod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da ac roedd pob un ohonynt o'r farn eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylid ei wneud pe byddai haint neu argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu.



Gwelsom fod arwyddion yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi gwybod i gleifion ac ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle. Roedd hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

### **Gofal Urddasol a Pharchus**

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gyfeillgar a'u bod yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan fyddai'r deintyddion yn gweld cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom fod gorchudd di-draidd wedi'i osod ar y ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Roedd desg y dderbynfa wrth y fynedfa wrth ymyl ystafell aros. Roedd ystafelloedd aros ychwanegol ar gael ar hyd y coridor ar y llawr gwaelod ac ar y llawr cyntaf gan gynnig rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion. Gwelsom fod yr ardaloedd aros ar y llawr cyntaf wedi cael eu dylunio, eu haddurno, eu dodrefnu a'u goleuo mewn modd a oedd yn darparu amgylchedd digyffro i gleifion a oedd yn bryderus a/neu'n niwrowahanol. Dywedwyd wrthym y gellid trosglwyddo galwadau ffôn cyfrinachol i'r llawr cyntaf a bod dwy ystafell ymgynghori breifat a swyddfa rheolwr y practis ar gael i gynnal trafodaethau sensitif.

Roedd egwyddorion ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybod wrth gyrraedd y practis os oedd unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiad. Cawsom wybod y bydd y staff yn rhoi gwybod i dîm y dderbynfa am unrhyw achos o oedi yn y deintyddfeydd.

Gwelsom fod slotiau ar gyfer apwyntiadau brys yn cael eu cadw gan bob deintydd yn ystod y bore a'r prynhawn ar gyfer cleifion y mae angen gofal deintyddol brys arnynt. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ceisio trin pob achos brys ar yr un diwrnod.

Cawsom wybod y gall fod angen i'r cleifion aros llai nag wythnos rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth os ydynt yn fodlon gweld deintydd gwahanol i'r arfer. Weithiau, gellir cynnal yr apwyntiad nesaf drannoeth hyd yn oed.

Mae'r practis yn agor yn gynnar tri diwrnod yr wythnos ac ar fore dydd Sadwrn, ac yn aros ar agor yn hwyr ar ddydd Llun. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gofal ar amser a oedd yn addas iddynt. Mae plant, fel rheol, yn cael apwyntiadau ar ôl oriau ysgol ond caiff apwyntiadau orthodontydd eu trefnu drwy gydol y dydd.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen gofal a thriniaeth brys arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a'u bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi.

## Teg

### Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom fod y wybodaeth ysgrifenedig a oedd i'w gweld yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais am wybodaeth mewn ieithoedd eraill. Er i ni weld bod rhywfaint o wybodaeth ar gael mewn fformatau eraill fel print bras neu fersiynau hawdd eu deall, rydym yn argymhell y dylai'r practis gyflwyno mwy o ddeunydd hawdd ei ddeall er mwyn diwallu anghenion cleifion ag anawsterau darllen.

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y gall y practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen.

Dywedwyd wrthym fod un deintydd a oedd yn siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis a'i fod yn gallu rhoi gofal yn Gymraeg pe gofynnwyd am hynny. At hynny, roedd aelod arall o staff yn y chwaer bractis yn siarad Cymraeg a allai fod ar gael hefyd pe byddai angen. Dywedwyd wrthym fod bathodynau 'laith Gwaith' ar gael, ond dim ond un aelod o'r staff oedd yn dewis gwisgo'r bathodyn.

Mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa yn bennaf. Gall cleifion ag anawsterau clywed drefnu apwyntiadau drwy e-bost. Nid yw'r practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein ar hyn o bryd.

Gwelsom fod system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yr oedd y staff wedi'i ddarllen a'i lofnodi i ddangos eu bod yn ei ddeall. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a hyfforddiant ar fwlio yn y gweithle.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Gwelsom fod mynediad gwastad i'r practis gyda drysau a oedd yn ddigon llydan i gadeiriau olwyn allu mynd i mewn i'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod. Roedd hyn yn sicrhau bod cleifion â phroblemau symudedd yn gallu cael gafael ar driniaeth. Nodwyd gennym fod toiled cwbl hygyrch i gleifion ar y llawr gwaelod a oedd wedi'i addurno i safon ragorol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli Risg

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da gydag ystafelloedd triniaeth mawr a oedd wedi'u goleuo'n dda a'u haerdymheru. Roedd y deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, ac yn dilyn cynllun cyson. Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel iawn, ond nid oedd unrhyw bolisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben a darparu copi o'r polisi hwnnw i AGIC fel tystiolaeth.**

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiadau fel cyfarpar yn methu, llifogydd neu os bydd system yn methu.

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod cyfleusterau ar gael i'r staff newid mewn preifatrwydd.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld.

Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Roedd swyddog tân dynodedig yn y practis a oedd yn gyfrifol am gynnal gwiriadau wythnosol wedi'u llofnodi ar y cyfarpar diogelwch tân ac am sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Gwelsom fod contract cynnal a chadw cyfredol ar waith ar gyfer y cyfarpar tân, a bod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod pedair allanfa dân ar y llawr gwaelod ac nad oedd unrhyw rwystrau o ran eu cyrraedd, ac roedd arwyddion gwagio'r adeilad yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r safle. Roedd yr allanfa dân ar y llawr cyntaf yn glir ac yn agor at ramp llydan a oedd yn arwain yn uniongyrchol at ardal y maes parcio cefn, a oedd yn golygu y gellid gwagio'r adeilad yn gyflym ac yn ddiogel o'r llawr gwaelod. Fodd bynnag, gwelsom fod cynllun gwagio'r adeilad ar gyfer y llawr gwaelod yn rhoi cyfarwyddyd i gleifion â phroblemau symudedd adael yr adeilad drwy ddeintyddfa nad oedd yn gwbl hygyrch, er bod allanfeydd eraill mwy priodol ar gael.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ailasesu'r cynllun ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân er mwyn cyfeirio pob ymwelydd i adael yr adeilad drwy'r allanfa dân agosaf, fwyaf priodol a darparu tystiolaeth o'r newidiadau i AGIC.**

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd y cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

### **Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol a bod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisi rheoli risg penodol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli risg yn cael ei roi ar waith yn unol â'r rheoliadau a darparu copi o'r polisi hwnnw i AGIC fel tystiolaeth.**

Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig a threfnus gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'i ddefnyddio yn ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Cafodd trefniadau priodol ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod gwiriadau priodol wedi cael eu cynnal o'r rhan fwyaf o'r cyfarpar dihalogi. Fodd bynnag, roedd y dyddiad ar gyfer gwasanaethu'r peiriant golchi-diheintio yr oedd angen ei wasanaethu bob blwyddyn wedi mynd heibio, ac roedd fis yn hwyr. Codwyd y mater hwn â'r tîm rheoli a chafodd archwiliad gwasanaethu ei drefnu.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl gyfarpar dihalogi ei wirio a'i wasanaethu'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 a darparu tystiolaeth i AGIC fod y broses wedi'i chwblhau a sicrwydd y caiff y broses wasanaethu ei chynnal yn brydlon yn y dyfodol.**

Gwelsom fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Nodwyd gennym fod gwastraff clinigol y practis yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol mewn ardal allanol, ddiogel wrth aros iddo gael ei gasglu. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pedwar allan o saith o'r biniau hyn wedi'u cloi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y biniau gwastraff clinigol eu cloi pan fyddant yn aros i gael eu casglu yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 07-01.**

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd asesiad risg COSHH addas ar waith ar gyfer pob sylwedd peryglus i iechyd.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn teimlo bod y lleoliad yn lân iawn ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Gwelsom hefyd fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, gan gynnwys y meddyginiaethau a oedd angen eu cadw mewn oergell. Roedd proses addas ar waith ar gyfer cael gwared â chyffuriau brys yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan staff y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Cawsom wybod y gallai cleifion wneud cais i'w weld.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Gwelwyd bod y meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr. Roedd system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y byddai angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom gofnodion fod gwiriadau wedi'u cwblhau, a oedd yn cadarnhau bod yr holl feddyginiaethau o fewn eu dyddiad defnyddio.

Gwnaethom gadarnhau fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

## **Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod y practis wedi penodi arweinwyr diogelu dynodedig a bod rheolwr y practis yn gallu cael gafael ar ganllawiau Diogelu Cymru Gyfan ar ei ffôn. Gwelsom fod gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r staff pe bai pryder. Fodd bynnag, roedd y polisi diogelu yn nodi ei fod yn seiliedig ar ganllawiau Public Health England yn hytrach na gweithdrefnau cenedlaethol Cymru Gyfan.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi diogelu'r practis yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol Cymru Gyfan a darparu copi o'r polisi hwnnw i AGIC fel tystiolaeth.**

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar wybodaeth am brosesau amddiffyn plant ac oedolion.

## **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaeth a gofal deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X a bod arwyddion priodol wedi'u gosod uwchben pob deintyddfa. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw ac wedi cael y profion gofynnol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd tystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd gofalywyr yn cael bod yn yr ystafell drin pan oedd archwiliad pelydr-x yn cael ei gynnal.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymell er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir a bod y staff yn gofyn am gyngor proffesiynol perthnasol pan fo angen.

### **Cofnodion Cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd gan yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt ddynodyddion cleifion addas, fel enw a dyddiad geni'r claf, y rheswm dros fynychu ac roedd y symptomau a ddisgrifiwyd gan y cleifion wedi'u cofnodi hefyd. Er i ni nodi nad oedd dewis iaith y cleifion wedi cael ei gofnodi, dywedwyd wrthym fod y staff yn gwirio'r dewis iaith fel rhan o'r broses diweddarau hanes meddygol, ac y byddai unrhyw iaith arall heblaw am Saesneg yn ymddangos fel nodyn naid ar eu cofnodion clinigol.

Roedd yr holl gofnodion yr edrychwyd arnynt yn cynnwys hanes deintyddol blaenorol, gan gynnwys defnydd o alcohol a thybaco, ac roeddent yn cynnwys system i sicrhau bod hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob ymgynghoriad. Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC mai dyma oedd yr achos. Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau meinweoedd meddal, archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg a phrofion sgrinio am ganser. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod y cleifion wedi cael gwybodaeth am hybu iechyd y geg, lle y bo'n briodol.

Roedd y cofnodion hefyd yn dangos tystiolaeth o waith cynllunio triniaeth, gan gynnwys opsiynau, a bod cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i dderbyn gan gleifion cyn eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau.

Roedd apwyntiadau adalw yn cael eu cofnodi'n unol â chanllawiau presennol NICE. Lle roedd archwiliadau pelydr-x yn cael eu cynnal, gwelsom fod cyfiawnhad a barn briodol wedi cael eu nodi a bod canfyddiadau clinigol wedi cael eu cofnodi.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi egluro'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff wedi ateb eu cwestiynau. Nodwyd gennym fod pob cofnod yn dangos y cafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth cyn rhoi triniaeth i'r claf.

### **Effeithlon**



## **Effeithlon**

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safon y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal o amgylch apwyntiadau arferol wedi'u trefnu ymlaen llaw.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig ac mae rheolwr practis, cydgysylltydd triniaeth a phrif nyrs yn gweithio yn y practis ac yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm staff y practis. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff strwythuredig a chyfathrebu ad hoc o ddydd i ddydd â'r staff. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd a'u bod yn cael eu rhoi i aelodau o staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o bolisiâu ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Fodd bynnag, yn y sampl o bolisiâu a welsom, nid oedd rhifau'r tudalennau, y dyddiadau, yr hanes adolygu na rhifau'r fersiynau wedi'u cofnodi'n gyson a oedd yn ei gwneud yn anodd penderfynu ai'r dogfennau hyn oedd y fersiynau diweddaraf.

Rydym yn argymhell y dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas ar waith i nodi dyddiad ar bob polisi, i adolygu pob polisi, i nodi rhif fersiwn ac i'r staff lofnodi pob polisi i gadarnhau eu bod wedi darllen ac wedi deall y fersiwn ddiweddaraf.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Roedd y ddwy ddogfen wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Mae tîm y practis yn cynnwys naw deintydd, tri hylenydd, 15 o nyrsys deintyddol a derbynyddion.

Gwelsom fod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedwyd wrthym na fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac y gellid defnyddio staff o'r chwaer bractis os byddai prinder staff oherwydd gwyliau a salwch.

Roedd enwau'r deintyddion a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis i'w gweld yn glir ochr yn ochr â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei monitro gan reolwyr y practis.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn agored a'i bod yn hawdd i'r staff fynd atynt, a bod ysbryd tîm da ymysg y staff.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a thystiolaeth (lle y bo'n ofynnol) o yswiriant indemniad a thystiolaeth o gofrestriad cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd tystiolaeth o imiwneiddiadau ar gael i bob aelod o'r staff ond un nyrs ddeintyddol dan brentisiaeth a oedd yn aros am ganlyniad prawf gwaed. Gwelsom fod asesiad risg ar waith a bod mesurau diogelu yn cael eu dilyn hyd nes y byddai'r imiwneiddiadau wedi'u cadarnhau.

Gwelsom fod proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau'r practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Nodwyd gennym fod uwch-reolwyr yn cadarnhau bod aelodau newydd o staff wedi cwblhau'r pynciau unigol.

Gwelsom fod y staff a gyflogir gan y practis yn cael arfarniadau gwaith blynyddol a'u bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**

Cafodd amrywiol drefniadau eu disgrifio ar gyfer gofyn am adborth gan gleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis gan gynnwys holiaduron cleifion, adolygiadau Google a gwefan y practis a oedd yn cynnwys mwy nag 800 o adolygiadau cadarnhaol. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn ardal aros y cleifion ar y llawr gwaelod.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw adborth yn cael ei asesu, ei ddadansoddi a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Gwelsom fod y practis yn cyfathrebu â chleifion am adborth drwy'r system Working Feedback ar y we, a bod themâu cyffredin wedi cael eu nodi. Roedd y practis wedi gwneud gwelliannau o ganlyniad i hyn, gan gynnwys rhoi holiadur boddhad cleifion ar waith ar gyfer triniaeth orthodonteg.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar wahân ar waith er mwyn rheoli cwynion am Denplan, gofal deintyddol y GIG a'r gofal deintyddol preifat a ddarperir yn y practis. Gwelsom fod poster Gweithio i Wella dwyieithog a hysbysiad cyffredinol am bryderon i'w gweld yn yr ardaloedd aros a oedd yn cyfeirio'r cleifion at y taflenni cwynion amrywiol a oedd ar gael yno. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt am help a chymorth hefyd wedi'u cynnwys.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (17/23) a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth. Nododd y gweddill nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Gwelsom fod ffeil cwynion ar gyfer cofnodi cwynion a wneir i'r practis, a bod y ffeil honno ar gael i bob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod pob rhan o'r broses ddatrys yn cael ei dogfennu a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn perthynas â'r gŵyn ddiweddaraf a ddaeth i law.

Gwelsom fod polisi ar waith yn y practis mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn rhoi arweiniad ac yn nodi cyfrifoldebau'r staff. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roeddent yn dangos dealltwriaeth dda pan gawsant eu holi. Hyd yma, ni fu unrhyw ddigwyddiad lle y bu angen arfer y Ddyletswydd Gonestrwydd.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**

Dywedwyd wrthym fod digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi ac y rhoddir gwybod amdanynt drwy system Datix, proses y Ddyletswydd Gonestrwydd a/neu'r cynllun cerdyn melyn, gan ddibynnu ar natur y digwyddiad.

Byddai digwyddiadau o bwys a gwybodaeth am ddiogelwch cleifion yn cael eu cofnodi a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm. Byddai'r drafodaeth hon ynghyd â chanlyniadau archwiliadau yn llywio ac yn helpu i lunio cynlluniau gwella a chynlluniau gweithredu lle bo angen.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o adborth a chwynion gan gleifion, dadansoddiad o amseroedd aros, atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau archwiliadau rhagnodi meddyginiaethau gwrthficrobaidd a rhoi'r gorau i smygu drwy adnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

## Dull Systemau Cyfan

### Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer ymgysylltu rhwng y practis a gwasanaethau eraill, megis diogelu, ymarferwyr cyffredinol a fferyllwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei gydgyssylltu'n well er mwyn hyrwyddo llesiant y cleifion a'r gymuned ehangach.

Gwelsom dystiolaeth mewn archwiliadau ac yng nghofnodion cyfarfodydd y practis fod systemau rheoli ansawdd allanol, megis eDEN ac NHS Compass yn cael eu monitro'n barhaus.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Bridge Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 18 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					



# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bridge Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 18 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nodwyd gennym nad oedd taflenni gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, megis hawdd eu deall neu ffont mawr, a oedd yn ystyried anghenion y cleifion ag anawsterau darllen.	Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y gall y practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion ag anawsterau darllen.	Safon Ansawdd - Teg	Mae mwy o daflenni hawdd eu deall wedi cael eu cyflwyno ar gyfer triniaethau deintyddol, taliadau, gofalu am eich dannedd a bwyta'n iach.	Leonard Smart	Tachwedd 2023
Gwelsom nad oedd unrhyw bolisi ar gynnal a chadw'r adeilad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben a	Rheoliad 8 (1)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi datblygu ffeil ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad. Cafodd y polisi newydd ei lofnodi gan bob aelod o'r staff a'i ddyddio ac	Leonard Smart	Tachwedd 2023

	darparu copi o'r polisi hwnnw i AGIC fel tystiolaeth.		mae'n cynnwys rhif fersiwn a dyddiad adolygu		
<b>Gwelsom fod cynllun gwagio'r adeilad ar gyfer y llawr gwaelod yn rhoi cyfarwyddyd i bobl anabl adael yr adeilad drwy ddeintyddfa nad oedd yn gwbl hygyrch i bobl anabl, er bod allanfeydd eraill mwy priodol ar gael.</b>	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ailasesu'r cynllun ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân er mwyn cyfeirio pob ymwelydd i adael yr adeilad drwy'r allanfa dân agosaf, fwyaf priodol a darparu tystiolaeth o'r newidiadau i AGIC.	Rheoliad 22 (4)(e)	Diweddarwyd ein cynllun ar gyfer gwagio'r adeilad ar ddiwrnod yr arolygiad, mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohono ac mae'r polisi newydd yn cynnwys dyddiad, rhif y fersiwn, dyddiad adolygu ac wedi'i lofnodi	Leonard Smart	Tachwedd 2023
<b>Gwelsom nad oedd polisi rheoli risg penodol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli risg yn cael ei roi ar waith yn unol â'r rheoliadau a darparu copi o'r polisi hwnnw i AGIC fel tystiolaeth.	Rheoliad 8 (1)(e)	Rydym wedi datblygu polisi rheoli risg ar gyfer rheoli heintiau ac wedi ei ychwanegu at ein llawlyfr rheoli heintiau. Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r polisi ychwanegol hwn, ac mae'n cynnwys dyddiad, rhif y fersiwn a dyddiad adolygu	Leonard Smart	Tachwedd 2023
<b>Gwelsom fod y dyddiad ar gyfer gwasanaethu'r peiriant golchi-diheintio</b>	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl gyfarpar dihalogi ei wirio a'i wasanaethu'n unol â'r canllawiau a argymhellir	Rheoliad 13 (2)(a) a Phennod 13, WHTM 01-05	Cafodd yr archwiliad gwasanaethu ei drefnu gydag Eschmann. Bydd ein polisi newydd ar gyfer cynnal a	Leonard Smart	Tachwedd 2023

<p>wedi mynd heibio, a'i fod fis yn hwyr.</p>	<p>a darparu tystiolaeth i AGIC fod y broses wedi'i chwblhau a sicrwydd y caiff y broses wasanaethu ei chynnal yn brydlon yn y dyfodol.</p>		<p>chadw'r adeilad yn sicrhau bod archwiliadau gwasanaethu yn cael eu cynnal yn brydlon.</p>		
<p>Gwelsom nad oedd pedwar allan o'r saith bin gwastraff clinigol wedi'u cloi.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y biniau gwastraff clinigol eu cloi pan fyddant wedi'u storio yn aros i gael eu casglu, yn unol â'r canllawiau a argymhellir.</p>	<p>Safon Ansawdd - Diogel a WHTM 07-01</p>	<p>Cafodd ein gwastraff ei gasglu y diwrnod cyn ein harolygiad ac ni chafodd y biniau eu cloi. Rydym bellach wedi ychwanegu proses ar gyfer cadarnhau bod y biniau clinigol wedi'u cloi at ein gweithdrefnau ar ddechrau a diwedd y dydd.</p>	<p>Leonard Smart</p>	<p>Tachwedd 2023</p>
<p>Roedd y polisi diogelu yn nodi ei fod yn seiliedig ar ganllawiau Public Health England yn hytrach na gweithdrefnau cenedlaethol Cymru Gyfan.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi diogelu'r practis yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol Cymru Gyfan a darparu copi o'r polisi hwnnw i AGIC fel tystiolaeth.</p>	<p>Rheoliad 14 (2)</p>	<p>Cafodd y cyfeiriad at "Safeguarding in general dental practice A toolkit for dental teams" a luniwyd gan Public Health England ei ddileu ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r polisi cyfan wedi cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Cymru.</p>	<p>Leonard Smart</p>	<p>Tachwedd 2023</p>

<p>Gwelsom nad oedd rhifau'r tudalennau, y dyddiadau, yr hanes adolygu na rhifau'r fersiynau wedi'u cofnodi'n gyson ar ddogfennau polisi a oedd yn ei gwneud yn anodd penderfynu ai'r dogfennau oedd y fersiynau diweddaraf</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas ar waith i nodi dyddiad ar bob polisi, i adolygu pob polisi, i nodi rhif fersiwn ac i'r staff lofnodi pob polisi i gadarnhau eu bod wedi darllen ac wedi deall y fersiwn ddiweddaraf.</p>	<p>Rheoliad 8</p>	<p>Mae rhifau'r tudalennau a'r fersiynau wedi cael eu hychwanegu at bob polisi.</p>	<p>Leonard Smart</p>	<p>Tachwedd 2023</p>
---	--	-------------------	---	----------------------	----------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Leonard Smart**

**Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 22.12.2023**